Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Mai 2025

## 1. Cyflwyniad

### Y Bil

**1.** Cyflwynwyd Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2025 a chafodd ei Ail Ddarlleniad ar 10 Chwefror 2025. Mae'r Bil wedi cwblhau'r Cyfnod Pwyllgor, a ddechreuodd ar 27 Chwefror 2025.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil a baratowyd gan Lywodraeth y DU yn nodi diben y Bil:

> *"The purpose of the Bill is to improve UK border security and strengthen the asylum and immigration system by creating a framework of new and enhanced powers and offences that, when taken together, reinforce, strengthen and connect capabilities across the relevant government and law enforcement partners which make up the UK's border security, asylum and immigration systems".*[1]

**3.** Byddai'r prif ddarpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn:

[1] Llywodraeth y DU, 'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo. Nodiadau Esboniadol', 30 Ionawr 2025, tudalen 4

- ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Cartref benodi Cadlywydd Diogelwch y Ffin. Byddai'r Cadlywydd yn pennu blaenoriaethau strategol mewn perthynas â diogelwch y ffin;

- creu troseddau newydd mewn perthynas â mudo anawdurdodedig. Byddai'n drosedd cyflenwi neu dderbyn bron unrhyw eitem y mae person yn gwybod neu'n amau y bydd yn cael ei defnyddio i hwyluso teithio anghyfreithlon i'r DU.

- caniatáu ar gyfer atafaelu pethau (fel ffonau symudol) y gellir storio gwybodaeth am hwyluso mewnfudo anghyfreithlon arnynt yn electronig;

- caniatáu i Gyllid a Thollau ei Fawrhydi rannu gwybodaeth tollau ag asiantaethau llywodraeth y DU ac asiantaethau tramor yn unol â chyfreithiau diogelu data.

- caniatáu i swyddogion mewnfudo gymryd manylion biometrig gan bobl dramor sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu hadleoli i'r DU; a

- diddymu Deddf Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) 2024 yn ei chyfanrwydd a'r rhan fwyaf o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023.[2]

**4.** Mae'r nodiadau esboniadol, memorandwm pwerau dirprwyedig, memorandwm hawliau dynol ac ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ar y Bil (ymhlith dogfennau allweddol eraill) wedi'u cyhoeddi ar dudalen we'r Bil.[3] Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi taflen ffeithiau hefyd ar wahanol agweddau ar y Bil. [4]

## Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**5.** Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Rhaid i Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â Bil o'r fath, a hynny dim mwy na phythefnos ar ôl y canlynol:

---

[2] Llyfrgell Ty'r Cyffredin,'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo 2024-25', 6 Chwefror 2025
[3] Senedd y DU,'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo'
[4] Llywodraeth y DU, 'Border Security, Asylum and Immigration Bill 2025: factsheets', 30 Ionawr 2025

- pan gaiff ei gyflwyno i'r Tŷ cyntaf yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru;
- pan gaiff gwelliannau eu cyflwyno neu eu cytuno i unrhyw Fil sy'n gwneud (neu a fyddai'n gwneud) darpariaeth mewn perthynas â Chymru.[5]

**6.** Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 17 Chwefror 2025.[6] Felly, gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar ôl y terfyn amser o bythefnos. Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *"Ni fu'n bosibl cydymffurfio â'r gofyniad i osod memorandwm o fewn pythefnos (Rheol Sefydlog 29.2) gan nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gallu ystyried cymalau cyn cyflwyno'r Bil (ac eithrio cymal 51 yr oedd Llywodraeth y DU eisoes wedi nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer)."*[7]

**7.** Yn wreiddiol, cafodd y Memorandwm ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau o 2 Mai 2025 ar gyfer cyflwyno adroddiad.[8]

## Dull craffu

**8.** Gwnaethom ystyried ein dull ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 13 Mawrth 2025. Cytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at randdeiliaid i gasglu mwy o wybodaeth am faterion penodol yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

---

[5] Senedd Cymru,'Rheolau Sefydlog Senedd Cymru', Ionawr 2025
[6] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', 17 Chwefror 2025
[7] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', 17 Chwefror 2025, tudalen 2
[8] Senedd Cymru,'Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', Chwefror 2025

**9.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 2 Ebrill 2025.[9] Cawsom bum ymateb gan randdeiliaid.[10]

[9] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Ebrill 2025
[10] Cyhoeddir yr holl ymatebion yma: Senedd Cymru,'Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo:'

# 2. Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

## Cymal 38

### Trosolwg

**10.** Mae cymal 38 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn diddymu darpariaethau penodol o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023 ("Deddf 2023"). Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â diddymiad penodol yr adrannau canlynol:

- **Adran 4**, a oedd yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU i wneud esemptiadau rhag y ddyletswydd i symud unigolion o'r DU (wedi'i chychwyn yn rhannol, ond nid yw mewn grym).
- **Adran 20**, a oedd yn caniatáu i Ysgrifennydd Gwladol y DU estyn y cymalau sy'n ymwneud â lletya plant mudol sydd ar eu pen eu hunain i Gymru (wedi'i chychwyn yn rhannol, ond nid yw mewn grym).
- **Adran 21**, a oedd yn ei gwneud yn bosibl trosglwyddo plant mudol ar eu pen eu hunain allan rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys allan o ofal awdurdodau lleol Cymru o bosibl (heb ei chychwyn).
- **Adran 57**, a oedd yn atal apelau yn erbyn canlyniad dulliau asesu oedran yr honnir eu bod yn rhai gwyddonol (heb ei chychwyn).
- **Adran 58**, a oedd yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch gwrthod asesiadau oedran gwyddonol (heb ei chychwyn).[11]

**11.** Yn ein hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Mudo Anghyfreithlon, argymhellodd mwyafrif o'r Pwyllgor na ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r cymalau uchod.[12] Aeth y Senedd ymlaen i beidio â rhoi cydsyniad. Fodd bynnag, arhosodd y darpariaethau yn y Bil wrth iddo ddod yn Ddeddf 2023.

### Barn Llywodraeth y DU

[11] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', 17 Chwefror 2025, tudalen 4, paragraffau 14-18
[12] Senedd Cymru, 'Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon', 19 Mehefin 2023, tudalennau 10-11

**12.** Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod cymal 38 yn ymwneud â dibenion mewnfudo a gedwir yn ôl yn gyfan gwbl, ac felly nad oes angen cydsyniad.[13] Mae hyn yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth flaenorol y DU mewn perthynas â'r cymalau hynny yn y Bil Mudo Anghyfreithlon, fel yr oedd ar y pryd.[14]

**13.** Mae Llywodraeth y DU yn esbonio y bydd diddymu rhai adrannau o Ddeddf 2023, gan gynnwys y rhai y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, yn mynd i'r afael â'r canlynol:

> "… provisions which prevent asylum decision-making, increase the backlog of asylum cases awaiting an outcome and put impossible pressure on asylum accommodation with significant costs to taxpayers."[15]

**14.** Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn diddymu darpariaethau yn Neddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 ("Deddf 2022") sy'n ymwneud ag asesiadau oedran gwyddonol. Gwrthwynebwyd y darpariaethau ynghylch asesiadau oedran gwyddonol yn gryf gan Lywodraeth Cymru pan oedd y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn mynd drwy Dŷ'r Senedd (gweler paragraff 18 isod).

**15.** Wrth graffu ar y Bil, gofynnodd y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus i'r Gweinidog dros Ddiogelwch y Ffin a Lloches a oedd Llywodraeth y DU yn cefnogi'r defnydd o asesiadau oedran gwyddonol. Dywedodd eu bod ar ganol gwneud gwaith i weld a oes modd cael system o asesiadau oedran gwyddonol sy'n ddigon cadarn i'w defnyddio, fodd bynnag, nododd:

> *"I would not, however, want to give the hon. Gentleman the false impression that we have completely abandoned the idea of doing scientific age assessment. Currently, we are trying to assess whether there are ways of doing it that not only are cost-effective, but can be relied on. It is not an easy thing to do; there are no very easy solutions to whether it is accurate. We are exploring those areas ahead of making any subsequent announcements about if—and how, if we do—we use scientific age assessment.*[16]

[13] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', 17 Chwefror 2025, tudalen 6, paragraff 30
[14] Llywodraeth y DU, 'Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol', 27 Ebrill 2023, tudalen 12
[15] Llywodraeth y DU, 'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo 2025: asesiad o'r effaith', paragraff 117
[16] Senedd y DU, 'Hansard: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (Ail eisteddiad)', 27 Chwefror 2025

## Barn Llywodraeth Cymru

**16.** Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod cymal 38 yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd a bod angen cydsyniad y Senedd felly. Mae'n nodi:

- bod adran 4 o Ddeddf 2023 yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU i wneud diwygiadau, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol, i Fesurau neu Ddeddfau'r Senedd; a
- bod adrannau 20, 21, 57 a 58 yn cael effaith ar ofal cymdeithasol a/neu swyddogaethau awdurdodau lleol, sy'n faterion datganoledig.[17]

**17.** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r Senedd roi cydsyniad i gymal 38, gan nodi nad yw'n bosibl diddymu darpariaethau perthnasol Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023 drwy unrhyw beth heblaw deddfwriaeth gan y DU. Mae'r safbwynt hwn yn gyson â barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau hynny yn y Bil Mudo Anghyfreithlon, yr argymhellodd y dylai'r Senedd wrthod cydsyniad iddynt. Nododd Llywodraeth Cymru eu bod yn anghyson â pholisi gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru a bod Llywodraeth y DU wedi methu â chadarnhau bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.[18]

**18.** Fodd bynnag, yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yr ydym yn ei ystyried, ni nododd Llywodraeth Cymru farn ar ddarpariaethau yn Neddf 2022 neu Ddeddf 2023 nad ydynt yn cael eu diddymu gan y Bil, ond a wrthwynebwyd gan Lywodraeth Cymru mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei gwrthwynebiad i ddulliau asesu oedran gwyddonol yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, a osodwyd ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r Memorandwm yn dyfynnu ei phecyn cymorth asesu oedran, sy'n nodi:

> *"This Toolkit does not recommend or support the use of medical examinations as determinants of age. The science underpinning the determining of age is inconclusive, unclear and in any event, subjecting young people to invasive medical examinations is judged to be morally wrong… It is worth noting the position of the UNHCR that 'medical age assessment methods remain highly contested and are subject*

---

[17] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', 17 Chwefror 2025, tudalennau 4 a 6, paragraffau 4-18 a 32.
[18] Llywodraeth CymruMemorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 26 Mai 2023, Tudalennau 3-5, paragraffau 26-49

*to a high margin of error'. The evidential value of such methods remains contested by UK courts and in other jurisdictions, and by medical professionals and associations."*[19]

**19.** Fodd bynnag, yn ei llythyr diweddar atom, nododd Llywodraeth Cymru eto fod ei safbwynt mewn perthynas ag asesiadau oedran gwyddonol o blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches wedi'i nodi yn ei phecyn cymorth asesu oedran. Cadarnhaodd y byddai'n hoffi gweld y darpariaethau cysylltiedig yn cael eu diddymu maes o law.[20]

## Barn rhanddeiliaid

**20.** Er eu bod yn croesawu'r Bil, mae rhai sefydliadau, gan gynnwys:

- Comisiynydd Plant Lloegr[21],
- Coram[22],
- Amnesty International UK[23],
- Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant Mudol[24],
- Hope for Justice[25],
- Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr[26], a
- Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo ("ILPA")[27],

wedi mynegi pryderon nad yw Llywodraeth y DU wedi mynd yn ddigon pell i ddiogelu hawliau plant sydd ar eu pen eu hunain a diddymu darpariaethau yn

[19] Llywodraeth Cymru, 'Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches: Pecyn Cymorth Asesu Oedran', Mehefin 2021
[20] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Ebrill 2025
[21] UK Parliament, 'Hansard: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (Eisteddiad cyntaf)', 27 Chwefror 2025
[22] Coram, 'Coram Children's Legal Centre welcomes scrapping of child detention powers', 30 Ionawr 2025
[23] Amnesty International UK, 'Papur Briffio: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, Bil 173'
[24] Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant Mudol, 'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', Chwefror 2025'
[25] Hope for Justice, 'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo: Papur Briffio Hope for Justice, Cyfnod Pwyllgor Chwefror 2025', Chwefror 2025
[26] Senedd y DU, 'Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr i Bwyllgor Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (BSAIB08)', 24 February 2025
[27] Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo (ILPA), 'Papur Briffio Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', Chwefror 2025

Neddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 ("Deddf 2022") a Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023 ("Deddf 2023"). Rhannodd Sefydliad Bevan a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru safbwyntiau tebyg.[28]

**21.** Croesawodd yr elusen Coram y cam i ddiddymu pwerau i gadw plant yn gaeth heb derfyn amser, ac i'r Swyddfa Gartref gadw plant ar eu pen eu hunain allan o'r system ofal arferol.[29] Croesawodd y Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant Mudol ac ILPA y cam o ddileu'r mesurau i gosbi plant a phobl ifanc nad ydynt yn cydsynio i ddulliau asesu oedran gwyddonol.[30]

**22.** Fodd bynnag, mae Amnesty International UK wedi cwestiynu'n sylfaenol pam mae Llywodraeth y DU yn cynnig cadw unrhyw ddarpariaethau o Ddeddf 2023. Maent hefyd wedi cwestiynu pam nad oes asesiad wedi'i wneud o a yw'r darpariaethau sy'n weddill o Ddeddf 2023 yn gydnaws â hawliau dynol, o ystyried nad oedd Llywodraeth flaenorol y DU yn gallu rhoi unrhyw sicrwydd i'r Senedd ynghylch cydnawsedd y Ddeddf honno â hawliau dynol. Mae hefyd wedi cwestiynu pam nad yw Llywodraeth y DU wedi cynnwys darpariaethau nad ydynt yn gydnaws â hawliau dynol yn Neddf 2022 ymhlith y rhai sydd i'w diddymu gan y Bil hwn. [31]

**23.** Mae gan Coram a NYAS Cymru bryderon, fodd bynnag, bod y Bil yn adeiladu ar droseddau mewnfudo presennol, gan gynnwys mynediad heb awdurdod. Mae Coram yn nodi eu bod wedi gweithio gyda phlant a orfodwyd i lywio cwch ac a gyhuddwyd wedyn o hwyluso, ac sydd wedi cyrraedd porthladdoedd ac wedi'u rhoi mewn carchardai oedolion ar sail asesiad gweledol o'u hoedran gan swyddogion y ffin.[32] Dadleuodd Sefydliad Bevan fod y Bil wedi'i leoli o fewn fframwaith deddfwriaethol sy'n anghydnaws â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.[33][34]

---

[28] Gweler hefyd: Tystiolaeth ysgrifenedig ar Gydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo: Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig ar Gydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo: Sefydliad Bevan

[29] Coram, 'Coram Children's Legal Centre welcomes scrapping of child detention powers', 30 Ionawr 2025

[30] Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant Mudol,Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', Chwefror 2025; Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo (ILPA), 'Papur Briffio Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', Chwefror 2025

[31] Amnesty International UK, 'Papur Briffio: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, Bil 173'

[32] Coram, 'Coram Children's Legal Centre welcomes scrapping of child detention powers', 30 Ionawr 2025

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig ar Gydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo: Sefydliad Bevan

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig ar Gydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo: Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru

**24.** Mae llawer o sefydliadau wedi codi pryderon nad yw'r Bil yn diddymu darpariaethau yn Neddf 2022 sy'n ymwneud ag asesiadau oedran gwyddonol. Lleisiodd Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant Mudol, ILPA, a NYAS Cymru bryderon cryf ynghylch cadw'r asesiad oedran gwyddonol a nodir yn Neddf 2022, y mae ILPA yn ei alw'n "*invasive*".[35]

**25.** Mynegodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) bryder ynghylch cadw darpariaethau yn Neddf 2022 sy'n ymwneud â Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol, gan nodi:

> "there is a risk that age assessments are skewed and result in individuals being assessed as adults … In contrast, age assessments undertaken by social workers employed by local authorities demonstrate 'clear blue water' in matters of immigration and criminal cases and age assessments are truly independent."[36]

## Cymal 51

### Trosolwg

**26.** Mae cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 53 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) yn darparu ar gyfer awdurdod statudol ôl-weithredol ar gyfer ffioedd a godir gan Lywodraeth y DU am dri gwasanaeth a ddarperir gan ddarparwr trydydd parti ar ran Llywodraeth y DU. Mae'r gwasanaethau, sy'n cynnwys Gwasanaeth Rhwydwaith Canolfannau Gwybodaeth Ewropeaidd y DU ("Gwasanaeth ENIC y DU"), yn ymwneud â chymharu, cydnabod ac asesu cymwysterau a gafwyd y tu allan i'r DU ac o fewn iddi. Gallai'r gwasanaethau hyn gynnwys, er enghraifft, paratoi 'datganiad o gymaredd' sy'n rhoi tystiolaeth o gymaredd cymhwyster tramor unigolyn â chymwysterau a ddyfarnwyd yn y DU.

**27.** Mae cyflenwyr trydydd parti wedi codi'r ffioedd hyn ar unigolion ar ran Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt awdurdod statudol i wneud hynny. Mae cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn sefydlu'r awdurdod statudol

[35] Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant Mudol,Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', Chwefror 2025; Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo (ILPA), 'Papur Briffio Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo'; Tystiolaeth ysgrifenedig ar Gydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo: Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru;
[36] Senedd y DU, 'Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) (BSAIB09)', 27 Chwefror 2025. Gweler hefyd:

hwnnw'n ôl-weithredol, gan ddileu'r posibilrwydd y bydd cwsmeriaid yn gofyn am ad-daliadau am ffioedd a dalwyd am y gwasanaethau hyn.[37]

## Barn Llywodraeth y DU

**28.** Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.[38]

**29.** Mae Llywodraeth y DU yn dadlau bod cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn angenrheidiol oherwydd ei fod yn dileu'r posibilrwydd y bydd cwsmeriaid yn gofyn am ad-daliadau am ffioedd a dalwyd am wasanaethau y maent wedi cael budd ohonynt mewn modd teg. Mae'n egluro bod y cymal yn sefydlu bod ffioedd sy'n bodloni'r amodau perthnasol yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi'u codi'n gyfreithlon.[39]

## Barn Llywodraeth Cymru

**30.** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Llywodraeth y DU bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd:

> *"Mae prif nod a phwrpas cymal 51 o fewn y cylch gwaith addysg h.y. mynediad i addysg uwch a chydnabod cymwysterau cyn ac ar ôl addysg uwch. Felly, mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 51 gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg".*[40]

**31.** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn cefnogi ac yn rhoi ei chydsyniad i gymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae'n nodi:

> *Cafodd y trefniadau contractio a chodi ffioedd hanesyddol ar gyfer Gwasanaeth ENIC y DU eu rhoi yn eu lle gan Lywodraeth y DU ond maent yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru… Felly mae'n briodol i ddarpariaeth gael ei gwneud ym Mil Llywodraeth y DU yn hytrach na defnyddio Bil*

---

[37] Llywodraeth y DU, 'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo. Nodiadau esboniadol', 30 Ionawr 2025, paragraffau 353-355, tudalen 50
[38] Llywodraeth y DU, 'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo. Nodiadau esboniadol', 30 Ionawr 2025, tudalen 56, paragraff 386
[39] Llywodraeth y DU, 'Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo. Nodiadau esboniadol', 30 Ionawr 2025, tudalen 50, paragraffau 353-355
[40] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', 17 Chwefror 2025, tudalen 5, paragraff 23

> *gan y Senedd i fynd i'r afael â'r mater, gan fod hyn yn delio â threfniant a sefydlwyd ac a weinyddwyd gan Lywodraeth y DU."*[41]

**32.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru sicrwydd inni na fyddai defnyddwyr gwasanaeth y DU, sy'n cynnwys y rhai yng Nghymru, yn wynebu unrhyw faich ychwanegol o ganlyniad i'r mesur. Ychwanegodd y byddai'r ddeddfwriaeth ôl-weithredol yn lliniaru'r risg y byddai defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi talu ffioedd am wasanaethau a ddarparwyd yn dwyn achos yn erbyn Llywodraeth y DU, a allai arwain at drosglwyddo'r costau hanesyddol hynny i'r trethdalwr.[42]

### Barn rhanddeiliaid

**33.** Mae rhai sefydliadau, fel Migrant Voice ac Amnesty International, wedi ymgyrchu ar faterion sy'n ymwneud â chodi ffioedd cenedligrwydd a mewnfudo, y maent yn honni eu bod yn 'gwneud niwed difrifol i lawer o bobl' drwy eu gorfodi i fod mewn sefyllfa lle mae ganddynt statws mewnfudo afreolaidd oherwydd na allant fforddio talu'r ffioedd. Maent yn mynd ymlaen i nodi:

> *"Clause 51 is remarkable for being retrospective legislation. It is intended to cure what was unlawful conduct in charging immigration-related fees without legal authority .... It would make retrospectively lawful what was unlawful when it was done, as if no violation of law had ever been perpetrated."*[43]

Mae ILPA yn gwneud dadleuon tebyg, gan ddadlau bod Llywodraeth y DU, drwy godi'r ffioedd, yn arfer pwerau nad oes ganddi.[44]

## Cymal 53

### Trosolwg

**34.** Mae cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 55 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol. Caiff y rheoliadau hyn

[41] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', 17 Chwefror 2025, tudalen 6, paragraff 29
[42] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Ebrill 2025
[43] Migrant Voice ac Amnesty International UK (cyflwyniad ar y cyd), 'Cyflwyniad ar y Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus', 25 Chwefror 2025, paragraff 51
[44] Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo (ILPA), 'Papur Briffio Cymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo', Chwefror 2025

ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad. Mae deddfiad ("enactment") yn cynnwys deddfiad a gynhwysir mewn Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru, neu mewn offeryn a wneir o dan Ddeddf neu Fesur gan Senedd Cymru.

## Barn Llywodraeth y DU

**35.** Nid yw Llywodraeth y DU yn rhestru cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd fel darpariaeth yn y Bil y mae'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn berthnasol iddi.

## Barn Llywodraeth Cymru

**36.** Nid yw Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

**37.** Yn ei hymateb i'n llythyr yn holi pam nad oedd cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm, nododd Llywodraeth Cymru:

> *"Nid oedd cymal 53 wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan ei fod yn bŵer cul sydd wedi'i gyfyngu i wneud diwygiadau gofynnol i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad uniongyrchol i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym. Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn perthynas â phynciau a gedwir yn ôl, gan fod mwyafrif y Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol."*[45]

[45] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Ebrill 2025

# 3. Ein barn ni

**38.** Mae Cymal 38 o'r Bil, wrth ddiddymu adrannau 20, 21, 57 a 58 o Ddeddf 2023, yn ymwneud â meysydd datganoledig gofal cymdeithasol a swyddogaethau awdurdodau lleol. Mae diddymu adran 4 o Ddeddf 2023 yn ymwneud â phŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddatgymhwyso neu addasu effaith deddfwriaeth y Senedd. Mae Cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn ymwneud â maes datganoledig addysg. Rydym felly yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 38 a 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

**Casgliad 1.** Mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 38 a 51 o Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo fel y’i cyflwynwyd (cymalau 38 a 53 o’r Bil fel y’i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

**39.** Mae cymal 38 yn diddymu rhai darpariaethau mewn deddfwriaeth bresennol yr oeddem yn eu gwrthwynebu wrth graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn pryderu ryw lawer ynghylch cymal 51 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Rydym yn cytuno, felly, â Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad ar gyfer cymalau 38 a 51 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

**Argymhelliad 1.** Dylai’r Senedd roi ei chydsyniad ar gyfer cymalau 38 a 51 o Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo fel y’i cyflwynwyd (cymalau 38 a 53 o’r Bil fel y’i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

**40.** Fodd bynnag, ni chawsom ein hargyhoeddi gan ddadl Llywodraeth Cymru nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae'n amlwg bod cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn Mesur neu Ddeddf gan Senedd Cymru, neu mewn offeryn a wnaed o dan Fesur neu Ddeddf o’r fath. Gofynnwn felly i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip egluro i'r Senedd pam ei bod o’r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y pŵer hwn, ac at ba ddibenion y mae’n credu y caiff ei ddefnyddio.

**Argymhelliad 2.** Yn ystod dadl y Senedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip egluro i’r Senedd pam y mae o’r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y pŵer

sydd wedi'i gynnwys yng nghymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 55 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), ac at ba ddibenion y mae'n credu y caiff ei ddefnyddio.

**41.** Rydym yn cytuno â safbwyntiau NYAS Cymru ac eraill y dylai plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches gael cefnogaeth gyfreithiol ac eiriolaeth pan fyddant yn cyrraedd Cymru. Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad diweddar 'Plant sydd ar yr ymylon', heb gefnogaeth o'r fath, gall plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches fod mewn mwy o berygl o fod yn destun camfanteisio neu gam-drin.

**42.** Rydym hefyd o'r farn bod angen ymateb effeithiol ar gyfer ceiswyr lloches yr aseswyd eu bod yn oedolion, ac y dylai fod camau cyflym ac effeithiol er budd y person ifanc er mwyn lleihau'r straen ar y system fewnfudo gyfan.

# Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

| Reference | Sefydliad |
|---|---|
| **BSAI 01** | Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru |
| **BSAI 02** | Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant Mudol |
| **BSAI 03** | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) |
| **BSAI 04** | Sefydliad Bevan |
| **BSAI 05** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| **BSAI 06** | Llywodraeth Cymru |